February 2010

Dear Colleague,

The British Education Studies Association Conference 2010

I enclose information on the forthcoming BESA conference which I hope you will find interesting. BESA was formed to support the renaissance of Education Studies through the sharing of ideas and understandings. The annual conference offers a showcase for colleagues' research in this broad area and is supported by our refereed journal educationalfutures.

Wales will host the sixth BESA conference at the historical Bangor University, which has just celebrated its 125th anniversary. Bangor itself is located in the heart of Snowdonia, amongst some of the most outstanding scenery in the UK. The accommodation facilities are of a high quality as are all the conference facilities, with the conference dinner being held in the historic Pritchard Jones Hall.

I can assure you that it will be a warm and friendly conference, providing an opportunity for new and experienced researchers to submit papers on the theme of Education Beyond Boundaries.

The conference has already generated much interest and lots of enquiries, so anticipation is high for a successful event. So if you are thinking of coming get your booking form in as soon as possible to safeguard your place! The full conference package is very reasonable and there are a substantial reduction for students.

Should you have any questions regarding catering and accommodation please do not hesitate to contact Sharon Hughes, the conference administrator on 01248388088 or s.hughes@bangor.ac.uk.

If you have any other queries regarding the conference itself please do not hesitate to contact me, on 01248383081/383084 or eds02f@bangor.ac.uk.

If the conference is not of immediate interest to you this year, it would be appreciated if you could pass this information on to a colleague.

Thanks and best wishes,

Gwenan Williams

Gwenan Williams
BESA Chair
eds02f@bangor.ac.uk
01248 383081/383084

British Education Studies Association

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

ANNUAL CONFERENCE

Education Beyond Boundaries

1-2 July 2010

BANGOR UNIVERSITY

The British Education Studies Association, BESA, provides an academic community for those working in the field of Education. Its series of annual conferences have provided opportunities for the sharing of ideas and experiences across the sector.

LOCATION

The conference will be held at Bangor University. There is ample parking space and high quality accommodation.

BOOKING

To obtain a booking form and further details, including how to submit a paper or poster presentation, please refer to the BESA website (http://www.educationstudies.org.uk/conference) or contact Gwenan Williams at eds02f@bangor.ac.uk

CONFERENCE THEME: EDUCATION BEYOND BOUNDARIES

The theme provides an opportunity to discuss education beyond all boundaries; such a broad theme can be interpreted liberally to cover aspects of educational research and practice across all sectors involved in education and connected with Education Studies as a flourishing discipline.

Essentially Education Studies is concerned with understanding how people develop and learn throughout their lives, and the nature of knowledge and critical engagement with ways of knowing and understanding. It offers intellectually rigorous analysis of educational processes, systems and approaches, and their cultural, social, political, historical and economic contexts. Other themes include the study of broader perspectives such as international education, economic relationships, the effects of globalisation and the role of human rights and ecological issues. All themes include critique of current policies and practice and a challenge to popular assumptions.

KEYNOTE SPEAKERS

Thursday 1 July 2010

Jane Davidson AM

In 2000, Jane Davidson became the first Minister of Education and Life-Long Learning and Skills of the Welsh Assembly Government, responsible for all aspects of education, training and life-long learning, including Schools, Further Education and Skills development, Higher Education, Youth Service and Careers Service. During this time she was particularly focused on encouraging young people to take part in politics and introduced school councils in every school in Wales and work closely with Funky Dragon, the young people's National Assembly for Wales. She was also responsible for the elimination of SATS and the development of the Foundation Phase.

She became Minister for the Environment, Sustainability and Housing July 2007, and leads on behalf of the Welsh Cabinet on Climate Change and Sustainability.

Prior to entering the Assembly, she worked for the Youth Hostel Association in Wales, ran an anti-poverty organisation and was responsible for health, housing and social care for the Welsh Local Government Association. She is one of the leading environmental campaigners in the UK.

Friday 2 July 2010

Prof. Rebecca Wallace

Professor Wallace is director of the University of Highlands and Islands Centre for on Rural Childhood at Perth College which aims to improve the lives of children locally, nationally and internationally. The Centre focuses on all aspects of childhood issues including health, education, crime, drugs, abuse, sexual exploitation and the experiences of immigrant children - all in a rural context, which is largely ignored in favour of studies into childhood problems in urban situations.

Professor Wallace, is an expert in international law and human rights, brings a wealth of experience to her role as director. Her many distinguished appointments and academic positions include Professor of International Human Rights at Robert Gordon University, Professor of Law and head of the School of Law at Napier University, Edinburgh and senior lecturer and Reader in Law at the University of Strathclyde. She has also been visiting scholar at the John Hopkins University, Washington DC and the Ariel Sallows Professor of Human Rights at the University of Saskatchewan in Canada.

She has an MA from Aberdeen University, an LLB from Dundee University, a Diploma in European Integration from Amsterdam University and a PhD from Glasgow University. She is also a member of the English Bar, Lincoln's Inn, and a Member of the Higher Education Academy, and she serves as a part-time immigration judge. She has written and published papers and handbooks on the international protection afforded to asylum seekers and refugees, specifically women and children, with corporate social responsibility, sustainable development, migration and human rights.

ACCOMMODATION

Accommodation is available on campus, in excellent en-suite facilities. The conference commences on Thursday, 1 July and ends after lunch on Friday, 2 July. However, it is also possible to arrive in Bangor in Wednesday evening. Please see the attached booking form for a selection of options.

STUDENT BURSARIES

There will be five student bursaries (conference fees and accommodation) available for students who wish to submit papers. Students interested should submit a booking form and abstract to Gwenan Williams by Friday, 23 April 2010.

Additionally, there is will £50 deduction form the full conference package for all undergraduate and post graduate students attending the conference.

CALL FOR PAPERS

The conference is an opportunity for delegates to share their research or scholarly work or the work of colleagues from across the field of education with a wider community.

Papers are invited on any topic related to the overarching theme of Education Beyond Boundaries

All abstracts of no more than 250 words should be submitted to Gwenan Williams at eds02f@bangor.ac.uk by Friday, 23 April 2010 on the attached submission proposal form.

- Paper presentations will be in pairs of 30 minutes each
- Poster presentations are also welcome and a poster area will be available

Contributions from students are particularly welcome.

BESA JOURNAL: EDUCATIONAL FUTURES

BESA has a refereed electronic journal: Educationalfutures

http://www.educationstudies.or.uk/journal to which you will be able to submit your conference paper for consideration and review.

BOOKING FORM

To book a place please complete the attached form and return to Sharon Hughes, Conference Services, Idwal Building, Bangor University, Ffriddoedd Road, Bangor, Gwynedd, LL57 2GP Tel: 01248388088 fax: 01248388681 or e-mail: s-hughes@bangor.ac.uk

Chwefror 2010

Annwyl Gydweithiwr,

Cynhadledd 2010 The British Education Studies Association

Rwy'n amgáu gwybodaeth am y gynhadledd BESA gan obeithio y bydd o ddiddordeb i chi. Ffurfiwyd BESA i gefnogi'r adfywiad mewn Astudiaethau Addysg drwy rannu syniadau a dealltwriaeth. Bydd y gynhadledd flynyddol hon yn gyfle i roi sylw i ymchwil cydweithwyr yn y maes eang hwn ac fe'i cefnogir gan ein e-cyfnodolyn *Educational Futures.*

Bydd Cymru'n croesawu chweched cynhadledd BESA, a gynhelir ym Mhrifysgol hanesyddol Bangor, sydd newydd ddathlu ei chanmlwyddiant a chwarter. Mae Bangor ei hun yng nghanol Eryri lle ceir rhai o olygfeydd mwyaf godidog gwledydd Prydain. Mae'r cyfleusterau llety, fel holl gyfleusterau'r gynhadledd, o safon uchel, tra cynhelir cinio'r gynhadledd yn awyrgylch ysblennydd Neuadd Prichard-Jones.

Gallaf eich sicrhau y bydd yn gynhadledd gynnes a chyfeillgar, gan roi cyfle i ymchwilwyr newydd a phrofiadol gyflwyno papurau ar y thema 'Addysg Tu Hwnt i Ffiniau '.

Cafwyd llawer o ddiddordeb a nifer o ymholiadau eisoes ynghylch y gynhadledd ac felly mae disgwyliadau'n uchel am achlysur llwyddiannus. Felly os ydych yn meddwl dod, anfonwch eich ffurflen archebu i mewn cyn gynted â phosibl i sicrhau eich lle! Mae'r pris yn rhesymol iawn, ac mae gostyngiad i fyfyrwyr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch arlwyo a llety, cysylltwch â Sharon Hughes, gweinyddwr y gynhadledd, ar 01248388088 neu s.hughes@bangor.ac.uk.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynghylch y gynhadledd ei hun, mae croeso i chi gysylltu â mi ar 01248383081/383084 neu eds02f@bangor.ac.uk

Os nad yw'r gynhadledd o ddiddordeb uniongyrchol i chi eleni, byddem yn ddiolchgar pe baech yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i gydweithiwr.

Gyda diolch a dymuniadau gorau,

Gwenan Williams

Gwenan Williams
Cadeirydd BESA
eds02f@bangor.ac.uk
01248 383081/383084



CYNHADLEDD FLYNYDDOL

Addysg Tu Hwnt i Ffiniau

1-2 Gorffennaf 2010

PRIFYSGOL BANGOR

Mae'r British Education Studies Association, BESA, yn gyfrwng i dynnu rhai sy'n gweithio ym maes Addysg at ei gilydd. Mae ei gyfres o gynadleddau blynyddol wedi rhoi cyfle i rannu syniadau a phrofiadau ar draws y sector.

LLEOLIAD

Cynhelir y gynhadledd ym Mhrifysgol Bangor. Mae digon o le parcio ar gael a llety o safon ragorol.

ARCHEBU LLE

I gael ffurflen archebu lle a manylion pellach, yn cynnwys sut i gyflwyno papur neu gyflwyniad poster, ewch i wefan BESA (http://www.educationstudies.org.uk/conference) neu cysylltwch â Gwenan Williams ar eds02f@bangor.ac.uk

THEMA'R GYNHADLEDD: ADDYSG TU HWNT I FFINIAU

Mae'r thema'n rhoi cyfle i drafod addysg y tu hwnt i unrhyw ffiniau; gellir dehongli thema mor eang i gynnwys agweddau ar ymchwil ac ymarfer addysgol ar draws yr holl sectorau sy'n gysylltiedig ag addysg ac sy'n ymwneud ag Astudiaethau Addysg fel disgyblaeth ffyniannus.

Yn ei hanfod, mae Astudiaethau Addysg yn ymwneud â deall sut mae pobl yn datblygu a dysgu drwy gydol eu bywydau, a natur gwybodaeth ac ymwneud yn feirniadol â ffyrdd o wybod a deall. Mae'n cynnig dadansoddiad trwyadl ddeallusol o brosesau, systemau a dulliau gweithredu addysgol, ynghyd â'u cyd-destunau diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol, hanesyddol ac economaidd. Mae themâu eraill yn cynnwys astudio safbwyntiau ehangach, megis addysg ryngwladol, cysylltiadau economaidd, effeithiau globaleiddio a swyddogaeth hawliau dynol a materion ecolegol. Mae'r holl themâu'n cynnwys beirniadaeth ar bolisïau ac ymarfer cyfredol a chyfle i herio rhagdybiaethau poblogaidd.

PRIF SIARADWYR

Dydd Iau, 1 Gorffennaf 2010

Jane Davidson AC

Yn 2000 penodwyd Jane Davidson yn Weinidog cyntaf dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llywodraeth y Cynulliad. Roedd yn gyfrifol dros bob agwedd ar addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes, yn cynnwys Ysgolion, Addysg Bellach a datblygu sgiliau, Addysg Uwch, Gwasanaethau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Yn ystod y cyfnod hwn canolbwyntiodd yn neilltuol ar annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a sefydlodd gynghorau ysgol ym mhob ysgol yng Nghymru. Bu'n cydweithio'n agos hefyd â'r Funky Dragon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru i bobl ifanc. Roedd yn gyfrifol yn ogystal am gael gwared ar SATS a datblygu'r Cam Sylfaen.

Daeth yn Weinidog dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai yng Ngorffennaf 2007 ac mae'n arwain yn y Cabinet Cymreig ar faterion Newid Hinsawdd a Chynaladwyedd.

Cyn mynd yn Aelod Cynulliad, bu'n gweithio i'r Gymdeithas Hosteli Ieuenctid yng Nghymru, arwain mudiad gwrth-dlodi a bu'n gyfrifol am faterion iechyd, tai a gofal cymdeithasol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'n un o'r prif ymgyrchwyr dros faterion amgylcheddol yng ngwledydd Prydain.

Dydd Gwener, 2 Gorffennaf 2010

Yr Athro Rebecca Wallace

Yr Athro Wallace yw cyfarwyddwr yr UHI Centre for Rural Childhood yng Ngholeg Perth. Nod y ganolfan hon yw gwella bywydau plant, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae'n arwain y Ganolfan ar bob agwedd ar faterion plentyndod, yn cynnwys iechyd, addysg, troseddu, cyffuriau, cam-drin, ecsbloetio rhywiol a phrofiadau plant mewnfudwyr. Edrychir ar

hyn i gyd mewn cyd-destun gwledig, sy'n tueddu i gael ei anwybyddu gyda'r pwyslais yn cael ei roi ar astudio problemau plant mewn sefyllfaoedd trefol.

Mae'r Athro Wallace, sy'n arbenigwr mewn cyfraith ryngwladol a hawliau dynol. Mae ei swyddi a'i phenodiadau academaidd niferus a phwysig yn cynnwys Athro Hawliau Dynol Rhyngwladol ym Mhrifysgol Robert Gordon, Athro'r Gyfraith a Phennaeth Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Napier, Caeredin, ac uwch ddarlithydd a Darllenydd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Strathclyde. Mae hefyd wedi bod yn ysgolor gwadd ym Mhrifysgol John Hopkins, Washington DC ac yn Athro Hawliau Dynol Ariel Sallows ym Mhrifysgol Saskatchewan yng Nghanada.

Mae gan Rebecca radd MA o Brifysgol Aberdeen, LLB o Brifysgol Dundee, a Diploma mewn Integreiddio Ewropeaidd o Brifysgol Amsterdam a PhD o Brifysgol Glasgow. Yn ogystal mae'n aelod o Far Lloegr, Lincoln's Inn a'r Academi Addysg Uwch, a hefyd mae'n gwasanaethu fel barnwr rhan-amser ar faterion mewnfudo. Mae wedi ysgrifennu a chyhoeddi papurau a llawlyfrau ar yr amddiffyniad rhyngwladol a roddir i geiswyr lloches a ffoaduriaid, yn arbennig merched a phlant, ynghyd â chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, datblygu cynaliadwy, ymfudo a hawliau dynol.

LLETY

Mae llety ar gael ar y campws mewn cyfleusterau en-suite rhagorol. Mae'r gynhadledd yn dechrau ddydd Iau, 1 Gorffennaf ac yn gorffen ar ôl cinio ddydd Gwener, 2 Gorffennaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd dod i Fangor ar y nos Fercher. Ceir amrywiaeth o ddewisiadau yn y ffurflen archebu lle sydd ynghlwm.

BWRSARIAETHAU MYFYRWYR

Bydd pum bwrsariaeth (ffioedd y gynhadledd a llety) ar gael i fyfyrwyr sy'n dymuno cyflwyno papurau. Dylai myfyrwyr sydd â diddordeb anfon ffurflen archebu lle a chrynodeb at Gwenan Williams erbyn dydd Gwener, 23 Ebrill 2010.

Yn ychwanegol, bydd gostyngiad o £50 oddi ar bris llawn y gynhadledd i bob myfyriwr israddedig/ymchwil fydd yn mynychu'r gynhadledd.

GALWAD AM BAPURAU

Mae'r gynhadledd yn gyfle i gynadleddwyr rannu eu hymchwil neu waith ysgolheigaidd, neu waith cydweithwyr, ar draws maes addysg, gyda chymuned ehangach.

Gwahoddir papurau ar unrhyw destun sy'n gysylltiedig â thema eang Addysg Tu Hwnt i Ffiniau.

Dylid anfon crynodebau o ddim mwy na 250 o eiriau at Gwenan Williams yn eds02f@bangor.ac.uk erbyn dydd Gwener, 23 Ebrill 2010 ar y ffurflen gyflwyno sydd ynghlwm.

- Cyflwynir papurau mewn parau o 30 munud yr un
- Croesewir cyflwyniadau poster hefyd a bydd man arddangos posteri ar gael.

Croesewir cyfraniadau gan fyfyrwyr yn arbennig.

CYFNODOLYN BESA: EDUCATIONAL FUTURES

Mae gan BESA gyfnodolyn electronig: Educationalfutures

http://www.educationstudies.or.uk/journal y gellwch anfon eich papur cynhadledd iddo i'w ystyried a'i adolygu.

FFURFLEN ARCHEBU LLE

I archebu lle, llenwch y ffurflen ynghlwm os gwelwch yn dda a'i dychwelyd at Sharon Hughes, gweinyddwr y gynhadledd, ar 01248388088 neu s.hughes@bangor.ac.uk.